



CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cymeradwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 2il Ionawr 2020

Rhagair

Mae CBAC yn sefydliad dyfarnu blaenllaw a ddatblygodd o'r Cyd-bwyllgor Addysg Cymru gynt, a sefydlwyd yn 1948. Gyda phrofiad o ddarparu cymwysterau ers dros 70 mlynedd, CBAC yw'r prif ddarparwr yng Nghymru ac mae'n un o brif ddarparwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae trosiant y sefydliad yn fwy na £40m a chyflogir tua 400 o staff ganddo. Mae mwyafrif y staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd modern ar gyrion dinas Caerdydd.

Bellach mae WJEC CBAC Limited yn elusen gofrestrdedig (rhif 1073332) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (rhif 03150875). Perchenogion y cwmni yw 22 awdurdod lleol Cymru a Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n ei reoli. Mae is-gwmni gan y sefydliad hefyd sef WJEC CBAC (Services) Limited, sy'n cynnig gwasanaethau argraffu a chyhoeddi arbenigol i gefnogi swyddogaethau craidd y Grŵp.

Mae'r ymrwymïadau o fewn y Cynllun hwn yn berthnasol i WJEC CBAC Limited a WJEC CBAC (Services) Limited a'r gwasanaethau a gynigir i'r cyhoedd mewn perthynas â Chymru.

Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad	4
2. Gohebiaeth	5
3. Gwneud a derbyn galwadau ffôn	5
4. Derbyn ymwelwyr yn safleoedd CBAC	6
5. Cyfarfodydd	6
6. Digwyddiadau a hyfforddiant	7
7. Cynhyrchu a chyhoeddi arholiadau ac asesiadau	9
8. Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau a ffurflenni	9
9. Gwefan a gwasanaethau ar-lein CBAC	11
10. Defnydd CBAC o'r cyfryngau cymdeithasol	11
11. Arwyddion a arddangosir yn CBAC	11
12. Hysbysiadau CBAC	12
13. Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan CBAC	12
14. Hunaniaeth gorfforaethol CBAC	12
15. Ystyried effaith penderfyniadau polisi CBAC ar y Gymraeg	12
16. Defnyddio'r Gymraeg yn rhan o drefn weinyddu fewnol CBAC	13
17. Ymdrin â chwynion sy'n cael eu gwneud gan aelod o staff CBAC	13
18. Disgyblu aelod o staff CBAC	13
19. Technoleg Gwybodaeth	14
20. Datblygu sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi gweithlu CBAC	14
21. Recriwtio a phenodi staff yn CBAC	15
22. Gweinyddu a monitro'r Cynllun	16

1. Cyflwyniad

Ers sawl blwyddyn bellach mae CBAC wedi dilyn yr egwyddor y bydd yn ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weithredu'n gyhoeddus yng Nghymru. Hefyd, wrth gyhoeddi unrhyw ddeunydd, ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn y Cynllun diwygiedig hwn, mae CBAC yn nodi sut bydd yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac yn y ffordd mae'n ymgysylltu â'i staff ei hun. Cyfrifoldeb pob aelod o staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yw cadw at ymrwymiadau'r ddogfen hon.

Mae CBAC yn cydnabod y gall unigolion fynegi eu safbwyntiau a'u hanghenion yn well yn yr iaith o'u dewis. Mater o arfer da felly yw galluogi iddynt ddefnyddio'r iaith honno. Bydd CBAC, felly, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn rhoi'r hawl iddynt ddewis cynnal unrhyw drafodaeth ag ef yn Gymraeg. Bydd yn defnyddio'r un egwyddor o ran yr hyn mae'n ei ddisgwyl gan y cyrff eraill sy'n cynorthwyo CBAC â'i waith.

Mae CBAC yn cydnabod bod gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru fel a roddwyd iddi o fewn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cymeradwywyd Cynllun Iaith gwreiddiol CBAC gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2006. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 2il Ionawr 2020.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig hwn ar gael ar wefannau CBAC a Chomisiynydd y Gymraeg ac ar gael i'r staff drwy'r fewnwyd.

Dylai unrhyw un a hoffai drafod y Cynllun Iaith diwygiedig hwn gysylltu â:

iaithgymraeg@cbac.co.uk
welshlanguage@wjec.co.uk

2. Gohebiaeth

- 2.1 Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg i ohebu â CBAC. Bydd datganiad o fewn troedyn ein gohebiaeth bapur ac electronig yn nodi ein bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg ac y byddwn yn ateb yn Gymraeg.
- 2.2 Bydd CBAC yn ymateb i bob gohebiaeth yn yr un iaith â'r ohebiaeth wreiddiol. Mewn rhai achosion, bydd yr ymateb yn ddwyieithog os credir ei fod yn berthnasol i gynulleidfa ehangach.
- 2.3 Pan fydd gohebiaeth yn cael ei pharatoi yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r ddau fersiwn gyfateb ym mhob ffordd, e.e. yn nhermau maint, cynnwys, y manylion cyswllt a ddarperir ac unrhyw lofnodion ar y ddogfen.
- 2.4 Wrth gychwyn unrhyw ohebiaeth, bydd CBAC yn defnyddio iaith y derbynnydd os yw'n hysbys. Os nad yw'r dewis iaith yn hysbys, bydd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i fynegi eu dewis ac yn derbyn gohebiaeth ddwyieithog yn y cyfamser.
- 2.5 Cofnodir dewis iaith y rhai sy'n gohebu ac fe gaiff y rhestr ei diweddarau yn ôl y gofyn.

3. Gwneud a derbyn galwadau ffôn

3.1 Derbyn galwadau i switsfwrdd CBAC

- 3.1.1 Bydd y cyfarchiad yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, er mwyn dangos bod croeso i bwy bynnag sy'n galw ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol i'r prif rif ffôn. Mae siarad Cymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer y rôl derbynnydd.
- 3.1.2 Bydd unrhyw alwad ffôn sy'n cael ei derbyn yn Gymraeg gan bobl o'r tu allan i'r sefydliad drwy ein prif rif ffôn, yn cael ei chynnal yn gyfan gwbl drwy gyfrwng yr iaith honno. Os nad yw'r derbynnydd yn gallu ymdrin â'r ymholiad a wneir yn Gymraeg bydd yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg arall. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd all ymdrin â'r ymholiad, bydd y derbynnydd yn egluro hyn ac yn cymryd manylion cyswllt y galwr. Yna, bydd yn esbonio pryd y bydd yn derbyn galwad yn ôl gan siaradwr Cymraeg neu'n nodi pryd y dylai ffonio eto.
- 3.1.3 Bydd rhestr aelodau staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael wrth y prif switsfwrdd er mwyn gallu trosglwyddo galwadau iddyn nhw.
- 3.1.4 Bydd gwasanaeth ateb ein prif rif ffôn yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg i gyfleu bod croeso i'r galwr adael neges yn Gymraeg.

3.2 Derbyng galwadau yn yr adrannau a gan aelodau unigol o staff

- 3.2.1 Atebir galwadau allanol i rifau uniongyrchol gyda chyfarchiad Cymraeg.
- 3.2.2 Os bydd galwr yn siarad Cymraeg, gwneir pob ymdrech i gynnal yr alwad i gyd yn Gymraeg. Pan fydd y sawl sy'n ateb ddim yn gallu siarad Cymraeg, byddent yn trosglwyddo'r alwad i rywun fydd yn gallu ymdrin â'r alwad yn Gymraeg.
- 3.2.3 Os nad yw'r sawl fyddai'n gallu ymdrin orau â'r alwad yn medru'r Gymraeg, dylid hysbysu'r galwr o hyn a dweud wrthynt fod dewis ganddynt i barhau â'r alwad drwy gyfrwng y Saesneg neu gysylltu ar e-bost yn Gymraeg i dderbyn ymateb yn Gymraeg cyn gynted â phosib.
- 3.2.4 Pan fydd CBAC yn ffonio unigolyn neu sefydliad am y tro cyntaf, bydd angen canfod a fyddai'n well ganddynt dderbyn galwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae angen cofnodi'r dewis iaith a sicrhau mai siaradwr Cymraeg sy'n cysylltu â'r sawl sy'n dymuno hynny i'r dyfodol.

4. Derbyn ymwelwyr yn safleoedd CBAC

- 4.1 Mae gwasanaethau'r brif dderbynfa yn Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, yn cael eu darparu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfatebol: mae disgwyl i staff y dderbynfa ddefnyddio'r Gymraeg fel eu dull arferol o gyfathrebu â'i gilydd er mwyn pwysleisio defnydd naturiol o'r iaith o ddydd i ddydd.
- 4.2 Os bydd adegau pan nad yw'r gwasanaeth Cymraeg ar gael wrth y dderbynfa (yn Rhodfa'r Gorllewin a Threfforest), mae'n hanfodol gallu darparu gwasanaeth derbynfa drwy gyfrwng y Gymraeg dros y ffôn os bydd angen.
- 4.3 Os gwneir trefniadau ymlaen llaw i dderbyn ymwelydd, dylid gofyn i'r ymwelydd hwnnw a hoffai dderbyn gwasanaeth derbynfa cyfrwng Cymraeg. Yn yr achos hwnnw mae angen sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael.
- 4.4 Dylid arddangos arwydd yn y dderbynfa yn Rhodfa'r Gorllewin yn dangos bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai staff y dderbynfa sy'n medru'r Gymraeg wisgo bathodynau i ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg.
- 4.5 Dylid arddangos arwydd yn y dderbynfa yn Nhrefforest yn dangos bod gwasanaeth derbynfa cyfrwng Cymraeg ar gael dros y ffôn os bydd angen.

5. Cyfarfodydd

5.1 Cyfarfodydd rhwng CBAC ac unigolion eraill

- 5.1.1 Pan fydd CBAC yn gwahodd pobl i gyfarfodydd, bydd yn gofyn am ddewis iaith ac yn naill ai cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu'n trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer y sawl nad ydynt yn deall Cymraeg.

5.2 Cyfarfodydd gydag un person yn ymwneud â chwyn, achos disgyblu neu gymorth i fyfyrwyr

5.2.1 Mae'r ddarpariaeth a nodir uchod yn adran 5.1.1. hefyd yn gymwys i gyfarfodydd sy'n ymwneud â chwyn, achos disgyblu sy'n ymwneud ag aelod o staff ac i faterion sy'n ymwneud â chymorth neu ddarpariaeth ar gyfer myfyriwr unigol.

5.3 Cyfarfodydd gyda mwy nag un person yn ymwneud â chwyn, achos disgyblu neu gymorth i fyfyrwyr

5.3.1 Pan fyddwn yn gwahodd mwy nag un unigolyn i gyfarfod sy'n ymwneud â chwyn, achos disgyblu neu faterion sy'n ymwneud â chymorth neu ddarpariaeth ar gyfer myfyriwr unigol, byddwn yn gofyn i bob person a fyddent yn dymuno cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfarfod.

5.3.2 Os yw o leiaf un o'r bobl a wahoddir i gyfarfod o'r fath wedi nodi eu bod yn dymuno cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd CBAC yn gwneud trefniadau cyfieithu ar y pryd er budd y rhai na allant ddilyn cyfraniadau a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.4 Cyfarfodydd gyda charfan o ddysgwyr, cyfarfodydd cyhoeddus a phwyllgorau sefydlog

5.4.1 Pan fydd CBAC yn gwahodd pobl i fynychu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i garfan o ddysgwyr, bydd yn cael ei wneud yn glir yn y gwahoddiad bod CBAC yn croesawu cyfraniadau yn y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.4.2 Caiff gwahoddiadau i gyfarfodydd o'r fath eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

5.4.3 Gofynnir i bobl sy'n cael eu gwahodd i siarad mewn digwyddiadau o'r fath a ydynt yn dymuno cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.4.4 Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ym mhob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd neu i garfan o ddysgwyr a bydd yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir neu a arddangosir mewn cyfarfodydd o'r fath ar gael yn y ddwy iaith, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

6. Digwyddiadau a Hyfforddiant

6.1 Hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan CBAC

6.1.1 Gofynnir i gynrychiolwyr sy'n archebu lle ar gwrs Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a ydynt yn dymuno cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle bo'r galw'n ddigonol (10% o'r gynulleidfa/ mynychwyr), bydd CBAC yn cynnig ystafell gyfarfod ychwanegol a/neu gyflwynwyr cyfrwng Cymraeg a/neu wasanaeth cyfieithu ar y pryd.

6.2 Digwyddiadau cyhoeddus wedi'u trefnu neu eu cyllido gan CBAC

- 6.2.1 Os byddwn yn trefnu digwyddiad cyhoeddus neu'n darparu o leiaf 50% o'r cyllid ar gyfer digwyddiad, byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hyrwyddo'r digwyddiad.
- 6.2.2 Os byddwn yn trefnu digwyddiad cyhoeddus neu'n darparu o leiaf 50% o'r cyllid ar gyfer digwyddiad, byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y digwyddiad, yn nhermau'r gwasanaethau sydd ar gael, y deunyddiau a arddangosir ac unrhyw negeseuon sain a gyfathrebir.

6.3 Cyhoeddusrwydd a hysbysebu

- 6.3.1 Mae CBAC yn sicrhau bod unrhyw gyhoeddiad ar gyfer y cyhoedd i farchnata CBAC yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae dogfennau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog onid yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd eu maint.
- 6.3.2 Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu (h.y. bydd y fersiwn Cymraeg uwchben ac/neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg).

6.4 Arddangos deunydd

- 6.4.1 Bydd posteri ac arddangosfeydd CBAC yn ddwyieithog ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd y fersiwn Cymraeg uwchben ac/neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg neu bydd ffurfiau cyfatebol yn cael eu cynhyrchu yn y naill iaith a'r llall ar wahân.
- 6.4.2 Bydd y trefniadau hyn yn berthnasol i ddeunydd sy'n cael ei arddangos mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd a drefnwyd gan CBAC yn ogystal ag mewn digwyddiadau a drefnwyd gan eraill.

6.5 Darlithoedd cyhoeddus wedi'u trefnu gan CBAC

- 6.5.1 Os bydd CBAC yn trefnu unrhyw ddarlith gyhoeddus, darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd pan fo'r deunydd pwnc neu'r ddarpar gynulleidfa'n nodi y byddai hyn yn briodol.
- 6.5.2 Mewn digwyddiadau o'r fath, os bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael, cyhoeddir hynny er mwyn dangos bod croeso i'r gynulleidfa gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.6 Seremonïau Gwobrwyo wedi'u trefnu gan CBAC

- 6.6.1 Os bydd CBAC yn trefnu digwyddiadau o'r fath, gwneir trefniadau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw agwedd ar y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys gwahoddiadau, deunydd arddangos (mewn print neu ddigidol), a chyhoeddiadau.

- 6.6.2 Gofynnir i'r sawl sy'n derbyn gwahoddiad i siarad mewn digwyddiadau o'r fath a ydyn nhw am gyfrannu yn Gymraeg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael mewn digwyddiadau o'r fath (oni bai ein bod yn gallu cynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl yn Gymraeg).

7. Cynhyrchu a chyhoeddi arholiadau ac asesiadau

- 7.1 Mae CBAC yn darparu arholiadau ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i bob cymhwyster mae'n ei gynnig. Anfonir fersiynau Saesneg cyflawn o bapurau arholiad i'r canolfannau er gwybodaeth i ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg.
- 7.2 Gall CBAC gynnig sicrwydd na fydd gwaith a gyflwynir i'w asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir i'w asesu drwy gyfrwng y Saesneg.
- 7.3 Oni bai bod amgylchiadau eithriadol a dim arholwr cyfrwng Cymraeg ar gael (e.e. mewn maes y mae arbenigedd yn brin ynddo neu mewn sefyllfa o ail-farcio lle byddai'r unig arholwr cyfrwng Cymraeg wedi ymwneud â'r marcio dechreuol yn barod) asesir gwaith ymgeiswyr yn yr iaith y cafodd ei gyflwyno ynddi. Yn yr achosion eithriadol hynny, bydd y tîm cyfieithu mewnol yn cyfieithu'r gwaith i'r Saesneg.
- 7.4 Cynhyrchir cynlluniau marcio cyfrwng Cymraeg ar ddiwedd pob cyfres.

8. Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau a ffurflenni

- 8.1 Cynhyrchir dogfennau'n ddwyieithog onid yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd eu maint. Os felly, cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (e.e. manylebau cymwysterau, deunyddiau asesu enghreifftiol, canllawiau i athrawon).
- 8.2 Os bydd deunydd y mae CBAC yn ei baratoi'n ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân, ac yn cael ei roi ar werth, bydd pris y ddau fersiwn yr un fath.
- 8.3 Bydd datganiadau i'r wasg sy'n ymwneud â'r holl faterion o ddiddordeb i Gymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Os bydd gofyn darparu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar adegau penodol, yna byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y ddwy iaith. Gall fod adegau pan fo angen cyhoeddi datganiad mewn ymateb i ddiddordeb a fynegwyd gan un rhan o'r cyfryngau'n unig a gwneir hynny yn yr iaith fwyaf priodol.
- 8.4 Cynhyrchir agendâu, papurau a chofnodion pob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg: mae hyn yn berthnasol hefyd i gyfarfodydd ein Grŵp Ymgynghorol Cymru (er ei fod yn grŵp ar sail gwahoddiad yn hytrach na chyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd).

- 8.5 Cynhyrchir tystysgrifau'n ddwyieithog ar gyfer dysgwyr yng Nghymru; ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran maint, ffont ayyb. Ymhellach, bydd y fersiwn Cymraeg uwchben ac/neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg.
- 8.6 Ymhlith dogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân y mae llyfrynnau, pamffledi, manylebau a chanllawiau i'w defnyddio gan ganolfannau a dysgwyr; polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol corfforaethol; canllawiau a chodau ymddygiad; papurau ymgynghori.
- 8.7 Pan gynhyrchir dogfen yn ddwyieithog, byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a bydd y fersiwn Cymraeg uwchben ac/neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg.
- 8.8 Pan gynhyrchir dogfen (ar wahân i bapur arholiad) fel fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân, bydd y fersiwn Saesneg yn nodi bod y ddogfen ar gael yn y Gymraeg yn ogystal.
- 8.9 Bydd ffurflenni CBAC yn ddwyieithog neu ar gael fel fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân. Pan gynhyrchir fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, bydd y fersiwn Saesneg yn nodi bod y ffurflen ar gael yn Gymraeg hefyd.
- 8.10 Pan gynhyrchir ffurflen yn ddwyieithog, byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (h.y. bydd y fersiwn Cymraeg uwchben ac/neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg). Defnyddir y confensiwn hwn ar gyfer pob ffurflen fewnol er mwyn gwneud hyn yn fater o arfer da.
- 8.11 Yn yr achosion hynny lle mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o ffurflen yn bodoli (naill ai ar wahân neu yn yr un ddogfen), byddwn yn sicrhau y byddant yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob ffordd (gan gynnwys amserau ymateb a dyddiadau cyflwyno).
- 8.12 Ym mhob achos, bydd CBAC yn dangos yn glir y gellir cyflwyno ceisiadau am grantiau neu gymorth ariannol a ddarperir gennym drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac na fydd unrhyw geisiadau a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys yn ymwneud â dyddiadau cyflwyno a llinellau amser hysbysu'r canlyniadau) yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a dderbynnir drwy gyfrwng y Saesneg.
- 8.13 Mae CBAC yn darparu amrediad eang o ddeunyddiau sy'n berthnasol i gyfleoedd dysgu ac yn ymwneud â'r cymwysterau. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i'r holl gymwysterau CBAC a "gymeradwyir" (gan y rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru) i'w defnyddio yng Nghymru. Os caiff unrhyw gymwysterau eu "dynodi" i'w defnyddio yng Nghymru (yn benodol y rheini a gynhyrchir dan ein brand Eduqas a'u rheoleiddio gan Ofqual), darperir dogfennau cyfrwng Cymraeg.
- 8.14 Pan mae CBAC yn cyhoeddi ei ddeunyddiau addysgol printiedig (e.e. gwerslyfrau) ei hun, yr ydym yn cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg yr un pryd.

8.15 Pan mae CBAC yn gwahodd tendrau a dyfarnu contractau, estynnir gwahoddiadau i dendro a dogfennaeth ategol yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig. Ym mhob achos, bydd CBAC yn dangos yn glir y gellir ymateb i dendrau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac na fydd unrhyw geisiadau a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys yn ymwneud â dyddiadau cyflwyno a llinellau amser hysbysu'r canlyniadau) yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a dderbynnir drwy gyfrwng y Saesneg.

9. Gwefan a gwasanaethau ar-lein CBAC

- 9.1 Mae'r wefan yn gyfan gwbl ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyfartal i'r Saesneg ar bob tudalen.
- 9.2 Mae'r wefan yn cynnwys dewisiadau iaith clir gyda'r modd i ddewis "Cymraeg" / "Saesneg" fel cyfrwng iaith pob tudalen.
- 9.3 Bydd y tudalennau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn cael eu hadolygu a'u diweddarau ar yr un pryd a bydd pob dogfen, adroddiad, ffurflen sydd ar y wefan ar gael yn y ddwy iaith ac yn cynnwys gwybodaeth y mae'n rhwydd ei llwytho i lawr yn y ddwy iaith.
- 9.4 Bydd cysondeb rhwng diweddarau, manwl gywirdeb, eglurder ac ansawdd yr holl adnoddau a darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn benodol, mae CBAC yn darparu manylebau cymwysterau, deunyddiau asesu enghreifftiol, canllawiau i athrawon ac adnoddau addysgol digidol ar yr un pryd yn y ddwy iaith.

10. Defnydd CBAC o'r cyfryngau cymdeithasol

- 10.1 Mae CBAC yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o ran gweithgaredd ar y cyfryngau cymdeithasol gan sicrhau felly nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 10.2 Os cyfathrebir yn Gymraeg dros y cyfryngau cymdeithasol yna bydd yr ymateb yn ôl yn Gymraeg hefyd (os bydd angen ymateb o gwbl).

11. Arwyddion a arddangosir gan CBAC

- 11.1 Mae arwyddion swyddogol presennol ym mhob un o swyddfeydd CBAC ac o fewn ffiniau adeiladau CBAC yn ddwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Hefyd bydd y fersiwn Cymraeg uwchben ac/neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg. Bydd pob arwydd a osodir o'r newydd yn cydymffurfio â'r uchod.
- 11.2 Os bydd rhaid defnyddio arwyddion ar wahân ar gyfer y ddwy iaith, byddai'r arwyddion hyn yn gyfartal o ran maint, ffurf, ansawdd, eglurder, cywirdeb a gwelededd ac i'w gosod yn y fath fodd fel ei bod yn debygol y darllenir y fersiwn Cymraeg yn gyntaf.

12. Hysbysiadau CBAC

- 12.1 Bydd CBAC, mewn unrhyw hysbysiad y mae'n ei arddangos neu'n ei gyhoeddi, yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (h.y. bydd y fersiwn Cymraeg uwchben ac/neu i'r chwith o'r fersiwn Saesneg).
- 12.2 Os bydd rhaid defnyddio hysbysiadau ar wahân ar gyfer y ddwy iaith, byddai'r hysbysiadau hyn yn gyfartal o ran maint, ffurf, ansawdd, eglurder a gwelededd ac i'w gosod yn y fath fodd fel ei bod yn debygol y darllenir y fersiwn Cymraeg yn gyntaf.

13. Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan CBAC

- 13.1 Bydd CBAC yn hyrwyddo'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg y mae'n eu darparu. Mae hyn yn cynnwys drwy ddangos ar ein gwefan y darperir asesiadau ac adroddiadau cyfrwng Cymraeg i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg.

14. Hunaniaeth gorfforaethol CBAC

- 14.1 Defnyddir "CBAC" a "WJEC" fel ffordd gryno o gyfeirio at WJEC CBAC Limited. Mae dwy ffurf i'r logo, gyda naill ai CBAC neu WJEC ar y brig.
- 14.2 Cyflwynir hunaniaeth gorfforaethol CBAC yn ddwyieithog. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys enw'r sefydliad, ei gyfeiriad, ei logo, bathodynau adnabod, arddangosfeydd, cyhoeddiadau, arwyddion ar adeiladau, papur pennawd, cardiau busnes, slipiau cyfarch ac unrhyw ddeunydd print arall a gynhyrchir gan CBAC.

15. Ystyried effaith penderfyniadau polisi CBAC ar y Gymraeg

- 15.1 Wrth ddatblygu neu addasu polisi, bydd CBAC yn ystyried effaith hynny ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ac ar fwriad CBAC i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 15.2 Wrth gynnal ymgynghoriad neu ymchwil sy'n ymwneud â datblygu neu addasu polisi, bydd CBAC yn holi barn am effaith y cynnig, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg ac ar fwriad CBAC i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 15.3 Wrth ddatblygu neu addasu cwrs (neu elfen o gwrs), bydd CBAC yn ystyried effaith hynny ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ac ar fwriad CBAC i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

16. Defnyddio'r Gymraeg yn rhan o drefn weinyddu fewnol CBAC

- 16.1 Bydd CBAC yn llunio polisi fydd ar gael ar ein mewnwyd i amlygu i staff sut y bydd CBAC yn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.
- 16.2 Pan gynigir swydd newydd i unigolyn darperir contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau'n ddwyieithog.
- 16.3 Darperir amrywiol ddogfennau'n ymwneud â chyflogaeth unigolyn yn ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, gan gynnwys deunydd yn ymwneud ag adolygiadau rheoli perfformiad, anghenion hyfforddi perthynol, gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith a gweithio hyblyg.
- 16.4 Darperir amrywiaeth o bolisiâu naill ai'n ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, gan gynnwys deunydd yn ymwneud ag ymddygiad yn y gweithle, iechyd a diogelwch, cyflogau a buddion eraill, rheoli perfformiad, absenoldeb o'r gwaith, amodau gwaith a phatrymau gweithio.

17. Ymdrin â chwynion sy'n cael eu gwneud gan aelod o staff CBAC

- 17.1 Mae CBAC yn caniatáu i'w staff ddefnyddio'r Gymraeg wrth wneud cwyn neu ymateb i gwyn a bydd y polisi perthnasol yn datgan hynny.
- 17.2 Mewn unrhyw gyfarfod y mae angen ei gynnal mewn perthynas â chwyn gan, neu am aelod o staff, nodir yn glir ei bod yn bosibl i'r aelod o staff gyfrannu yn Gymraeg yn y cyfarfod. Cynhelir y cyfarfod naill ai'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg neu bydd cyfieithu ar y pryd ar gael i'r sawl sydd ddim yn deall Cymraeg.
- 17.3 Bydd unrhyw gyfathrebu ag aelod o staff am benderfyniad a wnaed ar sail cwyn, yn digwydd yn Gymraeg os cyflwynodd ac yr ymatebodd yr aelod o staff i'r cwyn yn Gymraeg, neu os gofynnodd am gael cyfrannu yn Gymraeg mewn cyfarfod yn ymwneud â'r cwyn.

18. Disgyblu aelod o staff CBAC

- 18.1 Mae CBAC yn caniatáu i staff ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymateb mewn proses ddisgyblu i unrhyw honiadau a wnaed yn eu herbyn a bydd y polisi perthnasol yn datgan hynny.
- 18.2 Mewn unrhyw gyfarfod y mae angen ei gynnal mewn perthynas ag achos disgyblu gan, neu am, aelod o staff, nodir yn glir ei bod yn bosibl i'r aelod o staff gyfrannu yn Gymraeg yn y cyfarfod. Cynhelir y cyfarfod naill ai'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg neu bydd cyfieithu ar y pryd ar gael.
- 18.3 Bydd unrhyw gyfathrebu ag aelod o staff am benderfyniad a wnaed ar sail achos disgyblu, yn digwydd yn Gymraeg os cyflwynodd ac yr ymatebodd yr aelod o staff i'r achos yn Gymraeg, neu os gofynnodd am gael cyfrannu yn Gymraeg mewn cyfarfod yn ymwneud â'r achos.

19. Technoleg Gwybodaeth

19.1 Meddalwedd gyfrifiadurol i gynorthwyo â gwaith cyfrwng Cymraeg

19.1.1 Mae CBAC yn darparu'r gallu i staff ddefnyddio meddalwedd rhaglenni sy'n cynorthwyo'r broses o wirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg (e.e. Cysill a Cysgair) ac yn cynnig hyfforddiant ar sut i'w defnyddio.

19.1.2 Mae CBAC yn darparu'r gallu i osod rhyngwynebau cyfrwng Cymraeg ar gyfer meddalwedd rhaglenni (pan fyddan nhw ar gael) ac yn cynnig cefnogaeth i ddefnyddwyr sydd am wneud defnydd o'r rhain.

19.2 Mewnwyd CBAC

19.2.1 Mae CBAC yn sicrhau bod ei dudalen gartref, dewislenni a thudalennau unigol ar ei fewnwyd ar gael yn y Gymraeg. Sicrheir bod y tudalennau hynny'n gwbl weithredol ac nad oes ymdriniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg.

19.2.2 Gall defnyddwyr ddewis eu hiaith ar gyfer cyrchu'r fewnwyd, a bydd yn bosibl "toglo" rhwng y tudalennau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg hefyd.

19.2.3 Pan fydd tudalennau'n cael eu hychwanegu neu eu newid ar y fewnwyd, mae CBAC yn sicrhau bod y tudalennau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hychwanegu neu eu newid ar yr un pryd.

19.2.4 Ar y fewnwyd, darperir deunydd fydd yn cynghori ac yn cefnogi staff yn eu defnydd o'r Gymraeg.

20. Datblygu sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi gweithlu CBAC

20.1 Darperir yr agweddau hyfforddiant canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio cyfuniad o ddarparwyr mewnol, darparwyr wedi'u comisiynu'n allanol a meddalwedd ar-lein: recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; prosesau cwyno a disgyblu; sefydlu; ymdrin â'r cyhoedd; iechyd a diogelwch.

20.2 Darperir hyfforddiant (drwy gyfrwng y Gymraeg) ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau, cwynion a phrosesau disgyblu.

20.3 Darperir hyfforddiant sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer staff, ar lefelau sy'n berthnasol i'w hanghenion gan ddarparu cyfleoedd i symud ymlaen yn flynyddol, yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer rheolwyr llinell o ran sut gallan nhw ddefnyddio'r Gymraeg wrth reoli. Darperir yr hyfforddiant hwn yn ystod oriau gwaith a bydd ar gael yn rhad ac am ddim. Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd yn codi lle mae angen darparu cwrs dwys oddi ar y safle er mwyn datblygu sgiliau penodol yn yr iaith. Bydd hyn yn cynnwys rhyddhau'r unigolyn o ddyletswyddau gwaith am y cyfnod perthnasol. Gofynnir i staff wneud cymwysterau perthnasol yn y Gymraeg.

20.4 Darperir cwrs hyfforddi i'r staff fel y gallent ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru), eu

dealltwriaeth o'u dyletswydd i weithio mewn ffordd sy'n gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg a'u dealltwriaeth o'r ffordd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

- 20.5 Bydd gwybodaeth sydd ar gael i staff newydd yn ystod eu cyfnod sefydlu'n cynnwys gwybodaeth i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- 20.6 Darperir ffurfiau safonol i'w defnyddio gan staff fel ffordd o gynnwys fersiwn Cymraeg teitl eu swydd a manylion cyswllt ar waelod negeseuon e-bost, yn ogystal â hysbysiad i'w ddefnyddio pan nad ydyn nhw ar gael i ateb negeseuon e-bost a hysbysiad i ddangos a ydyn nhw'n rhugl yn y Gymraeg ynteu'n dysgu'r iaith.
- 20.7 Bydd CBAC yn trefnu bod bathodynau ar gael i staff i ddangos bod ganddyn nhw sgiliau yn y Gymraeg a byddant yn cael eu hannog i wisgo'r bathodynau hynny.

21. Recriwtio a phenodi staff yn CBAC

- 21.1 Wrth asesu'r gofynion am swydd sy'n newydd neu'n wag, bydd categorïau wedi'u cynnwys o ran sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swydd o'r fath, sef (i) hanfodol, (ii) i'w caffael gan y sawl a benodir i'r swydd, (iii) dymunol, neu (iv) ddim yn angenrheidiol. O ran swydd y Prif Weithredwr, Bwrdd y Cyfarwyddwyr fydd yn penderfynu ar y categorïddio mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Adnoddau Dynol. O ran swyddi ar yr Uwch Dîm Rheoli, y Bwrdd a'r Prif Weithredwr fydd yn penderfynu ar y categorïddio mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Adnoddau Dynol. O ran yr holl swyddi eraill, cynigir y categorïddio gan yr aelod perthnasol o'r Uwch Dîm Rheoli mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Adnoddau Dynol, i'w gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli ar y cyd.
- 21.2 Os bydd swyddi wedi'u categorïddio bod angen sgiliau yn y Gymraeg ar eu cyfer sydd naill ai'n (i) hanfodol, (ii) angen caffael sgiliau gan y sawl a benodir i'r swydd, neu (iii) dymunol, bydd yr hysbyseb am y swydd yn dangos hynny. Fel pob un o'r hysbysebion swyddi CBAC, bydd yr hysbyseb yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 21.3 Pan hysbysebir swydd, bydd CBAC yn nodi bod ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg i'w croesawu. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a dderbynnir drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny'n cynnwys yn ymwneud â dyddiadau cau a chyfathrebu canlyniadau.
- 21.4 Bydd y dogfennau canlynol ar gael yn ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg yn ogystal â Saesneg, ac ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg: ffurflen ymgeisio am swydd, canllawiau eglurhaol am y broses ymgeisio, manylion y broses gyfweld ac unrhyw asesiadau, disgrifiadau swyddi perthynol.
- 21.5 Bydd dogfennau ymgeisio am swydd yn nodi y gall ymgeisydd nodi a hoffai ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfweiliad neu asesiadau perthynol. Bydd CBAC yn hwyluso'r broses hon naill ai drwy gynnal y cyfweiliad yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddefnyddio cyfieithu ar y pryd, gan nodi y cynhelir

rhan o'r cyfweiliad ac asesiadau perthynol drwy gyfrwng y Saesneg ar gyfer swyddi lle mae'n ofynnol cyfathrebu yn yr iaith honno (sef mwyafrif swyddi CBAC).

- 21.6 Os cyflwynir ffurflen gais yn Gymraeg gan unrhyw un bydd unrhyw gyfathrebu am ganlyniad y cais hwnnw yn Gymraeg hefyd.

22. Gweinyddu a monitro'r Cynllun

22.1 Cadw cofnodion mewn perthynas â'r Cynllun

- 22.1.1 Cedwir cofnod, am bob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion a dderbynnir o ran cydymffurfio â'r Cynllun hwn, ac â Safonau'r Gymraeg ac am unrhyw fater arall yn ymwneud â defnydd CBAC o'r Gymraeg a chedwir copïau o gwynion ysgrifenedig a dderbynnir.
- 22.1.2 Cedwir cofnod o'r holl gamau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio â'r Cynllun.
- 22.1.3 Cedwir cofnod o bob aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg, gan gynnwys lefel y sgiliau hynny, a bydd yn cael ei ddiweddarau pan fo angen.
- 22.1.4 Cedwir cofnod o nifer a chyfran y staff wnaeth fynychu fersiynau Cymraeg unrhyw gyrsiau hyfforddi (os cawsant eu darparu) yn ystod pob blwyddyn ariannol.
- 22.1.5 Cedwir cofnod o'r holl asesiadau o ofynion sgiliau yn y Gymraeg a gyflawnir mewn perthynas â swydd newydd neu wag.
- 22.1.6 Cedwir cofnod o gategoreiddio pob swydd (gan gynnwys swyddi newydd a gwag, categorïau'n dangos bod sgiliau yn y Gymraeg yn (i) hanfodol, (ii) angen eu caffael gan y sawl a benodir i'r swydd, (iii) dymunol, (iv) ddim yn angenrheidiol.

22.2 Cyfrifoldeb a monitro

- 22.2.1 Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau cydymffurfiaeth gyffredinol â'r Cynllun laith Gymraeg hwn.
- 22.2.2 Cyfrifoldeb pob aelod o staff sy'n gweithio yn y meysydd Cynllun dan sylw yw'r arweiniad a amlinellir yn y Cynllun hwn. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu mewnol i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun ymysg staff CBAC.
- 22.2.3 Bydd CBAC yn gweithredu i fonitro effaith ei bolisïau, gweithdrefnau, arferion a gwasanaethau.
- 22.2.4 O bryd i'w gilydd bydd angen addasu y Cynllun diwygiedig er mwyn adlewyrchu cylch gorchwyl y sefydliad yn gywir. Ni fydd CBAC yn newid y Cynllun hwn heb ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.